

Amynedd

Meddai'r gweision wrtho, 'A wyt am i ni fynd allan a chasglu'r efrau?'
'Na,' meddai ef, 'wrth gasglu'r efrau fe allwch ddiwreiddio'r yd gyda hwy.'

Mathew 13: 28–29

EMYNAU

Er fod y nos yn ddu, y groes yn drom a'r llwybr yn serth rwyf am ddal ati:

Ymddiried wnaif yn Nuw
er dued ydyw'r nos;
daw ei addewid ef
fel golau seren dlos:
mae nos a Duw yn llawer gwell
na golau ddydd a Duw ymhell.

Penrith (*Caneuon Ffydd: 77*)

Ynghanol tryblith bywyd y mae'n rhaid i ni gofio addewid Iesu a mynd yn ein blaenau:

Cofiwn am gomisiwn Iesu
cyn ei fyned at y Tad:
"Ewch, pregethwch yr Efengyl,
gwnewch ddisgyblion ymhob gwlad."
Deil yr Iesu eto i alw
yn ein dyddiau ninnau nawr;
ef sy'n codi ac yn anfon
gweithwyr i'w gynhaeaf mawr.

John Roberts (*Caneuon Ffydd: 259*)

Wrth aros yng nghwmni Iesu ar daith bywyd mae'r ofnau'n diflannu a'r galon yn cynhesu:

Wrth rodio gyda'r Iesu
 ar y daith,
 mae'r ofnau yn diflannu
 ar y daith;
 mae gras ei dyner eiriau,
 a golau'r ysgrythurau,
 a hedd ei ddiodefidiadau
 ar y daith,
 yn nefoedd i'n heneidiau
 ar y daith.

Ben Davies (*Caneuon Ffydd*: 357)

Yng nghwmni Iesu mae dedwyddwch i'w brofi a heddwch i'w deimlo:

Chwilio amdanat, addfwyn Arglwydd,
 mae fy enaid, yma a thraw;
 teimlo 'mod i'n berffaith ddedwydd
 pryd y byddi di gerllaw:
 gwedd dy ŵyneb
 yw fy mywyd yn y byd.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 701)

Mae Duw yn dal i ddisgwyl amdanom ac mae'r drws yn agored led y pen:

Dewch, hen ac ieuainc, dewch
 at Iesu, mae'n llawn bryd;
 rhyfedd amynedd Duw
 ddisgwyliodd wrthym cyd:
 aeth yn brynhawn, mae yn hwyrhau;
 mae drws trugaredd heb ei gau.

Morgan Rhys (*Caneuon Ffydd*: 179)

Y Duw sy'n barod i ddisgwyl amdanom, y Duw amyneddgar wyt ti, a ninnau mor araf yn dysgu:

Araf iawn wyf fi i ddysgu,
 amyneddgar iawn wyt ti;
 mae dy ras yn drech na phechod –
 aeth dy ras â'm henaid i;
 paid rhoi 'fyny
 nes im gyrraedd trothwy'r drws.

Elfed (*Caneuon Ffydd*: 710)

GWEDDIAU

Duw amyneddgar yw Duw sy'n dal i ddisgwyl amdanom:

Am dy fod mor amyneddgar, y mae gobraith i ninnau. Pâr inni gofio dy hirymaros di, a phwyso ar dy ddaioni tuag atom, a'th awydd i ddwyn pawb i edifeirwch. Gofynnwn am ras i fyfyrion ar dy amynedd, i ymgadwr rhag dy demtio, ac i beidio ag oedi cyn ymateb i ti. Gwna ni'n ystyriol o'r cariad tuag atom sydd wrth wraidd dy amynedd. Cadw ni rhag rhyfygu i gymryd mantais arno, a rhag tristáu dy Ysbryd Glân. Amen.

John Rice Rowlands

Dysg i ninnau fod yn bobl amyneddgar a diolch am y rhai sy'n amyneddgar efo ni:

Diolchwn hefyd am amynedd pobl: amynedd rhieni gyda'u plant; dyfalbarhad athrawon da gyda'u disgyblion; ffyddlondeb cyfeillion sy'n glynu mewn amgylchiadau sy'n rhoi prawf ar gyfeillgarwch; goddefgarwch rhai sy'n hŷn at ormod brys rhai sy'n ifanc; sirioldeb rhai sy'n ifanc wrth genhedlaeth hŷn sy'n amharod i newid; hynawsedd ambell un sy'n brofiadol o fyrbwylltra ambell un sy'n anwybodus; tiriondeb pobl rasol at rai sy'n anodd eu trin a'u trafod. Diolchwn yn arbennig am amynedd rhywrai tuag atom ninnau, yn wyneb ein harafwch a'n diffygion. Amen.

John Rice Rowlands

Cyffeswn ein diffyg amynedd gan gofio mor fawr ydi dy amynedd di tuag atom:

Cyffeswn ger dy fron ein diffyg amynedd. Rydym yn aml yn llawdrwm ar eraill, heb oddef ein gilydd mewn cariad. Cyfeiria ein calonnau ‘at amynedd Crist’, gan ein hatgoffa mai digon i ni dy ras di, a bod prawf ar ein ffydd ‘yn magu dyfalbarhad’. Amen.

Peter Davies

Rydym yn cael ein galw i ddal ati i’r diwedd:

O Dduw, pan roddir i’th weision unrhyw orchwyl mewn unrhyw beth, pâr inni wybod hefyd nad y dechreuad sy’n bwysig ond y dyfalbarhad tan i’r gorchwyl gael ei gwblhau. Hyn sy’n dod â gwir ogoniant i’th enw. Amen.

Francis Drake

Gweddïwn am ymroddiad llwyr i efelychu Iesu Grist:

O Dad, cymorth ni i ddilyn esiampl Iesu Grist,
i ymroi i’th wasanaethu di
a’n cyd-ddyn yn dy enw.

Cymorth ni i’th wasanaethu yn ein gwaith beunyddiol
trwy gysegru pob dawn a gallu sydd ynom i ti.

Cymorth ni i’th wasanaethu yn ein hymarweddiad a’n buchedd
fel y bo’n bywydau yn dystiolaeth i ti.

Cymorth ni i’th wasanaethu yn dy eglwys
trwy ymateb i’th alwad i fod yn bobl i ti.

Cymorth ni i’th wasanaethu
trwy estyn cysur a chymorth i’n cyd-ddyn,
a thrwy hynny gyflawni cyfraith Crist. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

ADNODAU

Rhybudd Iago i’w bobl oedd iddynt fod yn amyneddgar a dal ati i weddïo:

Byddwch yn amyneddgar, gyfeillion, hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Gwelwch fel y mae'r ffermwr yn aros am gynnyrch gwerthfawr y ddaear, yn fawr ei amynedd amdano nes i'r ddaear dderbyn y glaw cynnar a diweddar.

Iago 5: 7

Yn nameg y Gwas Anfaddeugar dymuniad y gwas oedd i'w feistr fod yn amyneddgar tuag ato:

Syrthiodd y gwas ar ei liniau o flaen ei feistr a dweud, 'Bydd yn amyneddgar wrthyf, ac fe dalaf y cwbl iti.'

Mathew 18: 26

Dyfalbarhad mewn gweddi oedd yn nodweddu dilynwyr Iesu yn Llyfr yr Actau:

Yr oedd y rhain oll yn dyfalbarhau yn unfryd mewn gweddi, ynghyd â rhai gwragedd a Mair, mam Iesu, a chyda'i frodyr.

Actau 1: 14

Y mae deallusrwydd yn eiddo i'r hwn sy'n amyneddgar:

Y mae digon o ddeall gan yr amyneddgar, ond dyrchafu ffolineb a wna'r byr ei dymer.

Diarhebbion 14: 29

Dal ati i gyflawni ewyllys Duw yw nod y Cristion ymhob oes:

Y mae angen dyfalbarhad arnoch i gyflawni ewyllys Duw a chymryd meddiant o'r hyn a addawyd.

Hebreaid 10: 36

Nodweddion gŵr Duw yw rhoi ei fryd ar dduwioldeb, ffydd, cariad, dyfalbarhad ac addfwynder:

Ond yr wyt ti, ŵr Duw, i ffoi rhag y pethau hyn, ac i roi dy fryd ar uniondeb, duwioldeb, ffydd, cariad, dyfalbarhad ac addfwynder.

1 Timotheus 6: 11

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Aberth pob amynedd.

Amynedd yw mam pob doethineb.

Gall un eiliad o amynedd rwystro trychineb mawr ond gall un eiliad o ddiffyg amynedd ddinistrio bywyd.

Dihareb Chineaidd

Mae'n rhaid i ni ddisgwyl am Dduw am gyfnod hir, yn wylaidd, yn y gwynt a'r glaw, yn y mellt a'r taranau, yn yr oerni a'r tywyllwch. Aros, ond fe ddaw. Dydi o byth yn dod at y rhai sy'n ddiamynedd.

Frederick W. Faber

Nerth ydi amynedd; gydag amser ac amynedd bydd deilen y forwydden yn dod yn sidan.

Dihareb Chineaidd

Planhigyn chwerw ydi amynedd ond y mae'n dwyn ffrwyth melys.

Dihareb Almaenig

Man cychwyn pryder yw diwedd ffydd, a man cychwyn gwir ffydd ydi diwedd pryder.

George Mueller